**CYNORTHWY-YDD LLEOLIAD**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Yn gyfrifol am: Amherthnasol
Yn adrodd i: Rheolwr TG a Chyfleusterau

## Pwrpas y Swydd

Mae'r Cynorthwy-ydd Lleoliad yn bennaf gyfrifol am gynorthwyo gyda symud a gosod dodrefn ac offer sydd eu hangen ar gyfer rhedeg yr adeilad a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ynddo'n esmwyth.

Bydd y Cynorthwy-ydd Lleoliad hefyd yn cynorthwyo gyda chynnal a chadw'r adeilad, gan helpu i sicrhau bod y safle'n lân, yn ddiogel, yn gynnes, yn groesawgar ac yn addas ar gyfer y diben bob amser.

## Cyfrifoldebau allweddol

- Paratoi gofod yn barod ar gyfer digwyddiadau a defnydd busnes o ddydd i ddydd.
- Gall y paratoi gynnwys seddi, dodrefn arall, arlwyo, gweithdai, gweithgareddau, offer trydanol gan gynnwys systemau sain, goleuadau, taflunyddion a gliniaduron.
- Cynorthwyo gyda pharatoi a gweithredu digwyddiadau, gan gynnwys cydosod a datgymalu offer a mân atgyweiriadau a newid offer pan mae angen.
- Cefnogi tîm technegol y lleoliad gyda thasgau technegol sylfaenol.
- Gwirio diogelwch offer mewn meysydd cyfrifoldeb a rhoi gwybod am unrhyw ddifrod neu ddiffygion i offer ar unwaith ar ôl eu darganfod.
- Sicrhau bod lefel gyson uchel o lendid a hylendid yn cael ei chynnal ym mhob rhan o’r cyfleusterau.
- Cynorthwyo i gynnal a chadw offer, yr ardaloedd cefn a’r storfeydd mewn modd glân, diogel a thaclus.
- Deall a chydymffurfio â gweithdrefnau brys (cynllun gweithredu brys) a chynorthwyo gydag unrhyw ddigwyddiadau o'r fath mewn ffordd briodol.
- Cefnogi gweithgarwch manwerthu ac arlwyo pan mae hynny'n briodol.
- Mae hon yn rôl gorfforol heriol, gan weithio ar draws gofod mawr y lleoliad, ac nid yw’n swydd mewn swyddfa.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cais y Rheolwr TG a Chyfleusterau.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Sgiliau gwaith tîm a rhyngbersonol da, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd effeithiol gydag amrywiaeth eang o bobl.
- Sgiliau rheoli amser a threfnu da, gyda'r gallu i gyflawni tasgau amrywiol ar yr un pryd, blaenoriaethu a datrys problemau.
- Y gallu i'ch cymell eich hun a defnyddio eich blaengaredd eich hun.
- Yn gallu cyflawni tasgau codi rheolaidd ar eich pen eich hun a gyda chymorth.
- Parodrwydd i fabwysiadu dull hyblyg o weithio o ddydd i ddydd.
- Yn fodlon gweithio oriau hyblyg gan gynnwys gyda'r nos, ar benwythnosau a Gwyliau Banc yn ôl gofynion y busnes.

**Dymunol**

- Dealltwriaeth sylfaenol o offer goleuo a sain.
- Cymraeg Ysgrifenedig a Llafar.
- Trwydded Yrru Lawn.